Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gymuned Y Ffridd
## Gwalchmai
## Caergybi
## Ynys Môn
## LL65 4SG

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/03/2016**

## Cyd-destun

Ysgol naturiol ddwyieithog, gymunedol yw Ysgol y Ffridd. Mae wedi ei lleoli yng nghanol pentref gwledig Gwalchmai ar Ynys Môn. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal o'i chwmpas. Mae'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae 83 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys deg o oed meithrin. Mae ganddi bedwar dosbarth oed cymysg.

Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae 60% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae 21% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 25% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol ac ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Ionawr 2012. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2011. Yn ogystal â'r pennaeth, sydd â gofal dosbarth am dri diwrnod yr wythnos, mae tair athrawes amser llawn ac un athrawes rhan amser.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2015-2016 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned y Ffridd yw £4,461. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £6,763 a'r isafswm yw £2,889. Mae Ysgol Gymuned y Ffridd yn 22ain allan o'r 47 o ysgolion cynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd Cymraeg a Saesneg yn effeithiol ar draws y cwricwlwm ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith
- rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith
- yr athrawon yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu sy'n ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn llwyddiannus
- ethos cartrefol, clos gan yr ysgol, lle mae perthynas iach o barch a gofal rhwng y staff a'r disgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod

- y pennaeth yn cynnig arweinyddiaeth gadarn a chyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol
- staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn hybu ethos cartrefol, clos ar gyfer yr holl ddisgyblion
- gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu a strategaethau manwl ar gyfer mynd i'r afael â'r hyn sydd angen ei gyflawni mewn perthynas â chodi safonau
- y corff llywodraethol yn wybodus, yn gefnogol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus am ei pherfformiad
- partneriaethau buddiol yn bodoli gydag ystod dda o bartneriaid sydd yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen disgyblion

A2 Parhau i wella presenoldeb

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A4 Cynnig her gyson i ddisgyblion o allu uwch

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed, ac eithrio yn y Gymraeg, sy'n newydd i leiafrif ohonynt. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan iawn. Maent yn ymateb yn briodol i ystod o gyfarwyddiadau, cwestiynau a chyfarchion yn y Gymraeg drwy ddefnyddio patrymau brawddeg syml yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith ac yn mynegi barn synhwyrol. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gwersi ac ar gyfraniadau disgyblion eraill. Maent yn canolbwyntio'n dda yn ystod gwersi ac yn siarad am eu gwaith â hyder cynyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddefnyddio geirfa briodol, er enghraifft wrth drafod priodweddau gwahanol ddefnyddiau mewn gwers gwyddoniaeth. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig ac yn mynegi eu hunain yn glir a chywir, er enghraifft wrth drafod swyddogaeth wahanol organau'r corff. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae bron bob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Mae disgyblion ym mlynyddoedd cynnar y cyfnod yn caffael dealltwriaeth dda o'r berthynas rhwng llythrennau a seiniau ac maent yn eu defnyddio'n dda i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn gywir ac yn rhugl. Gall y rhan fwyaf drafod eu hoff lyfrau. Er hyn, ychydig sy'n ymwybodol o awduron enwog. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn y ddwy iaith gyda chywirdeb, rhuglder a phwyslais cynyddol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio strategaethau priodol er mwyn sefydlu ystyr. Maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a chymeriadau yn eu llyfrau cyfredol yn briodol. Fodd bynnag, lleiafrif o'r disgyblion sy'n trafod amrywiol destunau ac ateb cwestiynau'n effeithiol ynglŷn â'r hyn maent yn ei darllen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn deall diben llyfrau ffeithiol ac yn eu defnyddio'n briodol i gasglu gwybodaeth am bwnc arbennig, er enghraifft yn eu hymchwil ar swyddogaeth gwahanol organau'r corff.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml yn annibynnol, gyda'r mwyafrif o eiriau cyffredin wedi eu sillafu'n gywir a chydag atalnodi pwrpasol. Maent yn defnyddio ansoddeiriau'n hyderus i gyfoethogi eu gwaith. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da wrth ysgrifennu darnau estynedig ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y ddwy iaith, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Maent yn defnyddio ystod addas o batrymau brawddeg

yn gywir ac yn dangos gafael gynyddol o gywirdeb ieithyddol ac atalnodi. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu am effaith yr Ail Ryfel Byd ar fywyd yn y pentref. Ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus i ddatrys problemau. Gall llawer ddefnyddio unedau safonol i fesur a chynnal tasgau ar gynhwysedd yn gywir. Maent yn defnyddio'u medrau trin data yn bwrpasol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ac effeithiol ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ymdrin ag arian wrth chwarae rôl yn siop y dosbarth neu wrth ddefnyddio eu gwybodaeth am wahanol siapiau 2D i efelychu lluniau artist enwog. Yng nghyfnod allweddol 2 mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, ac maent yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o strategaethau i ddatrys problemau mathemategol. Maent yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed. Maent yn defnyddio geirfa fathemategol yn hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio onglydd i fesur onglau. Maent yn trin a dadansoddi data yn hyderus gyda'r mwyafrif yn cynhyrchu graffiau priodol yn annibynnol. Fodd bynnag, er bod medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn, nid ydynt yn eu trosglwyddo'n ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Ar brydiau, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd ar y deilliant disgwyliedig wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion mewn datblygiad mathemategol wedi gostwng o'r 25% uchaf i'r 50% is dros y ddwy flynedd diwethaf. Ar y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion yn amrywio'n fawr ac nid oes patrwm cyffredinol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn amrywio'n fawr ac nid oes patrwm cyffredinol**.** Ar y lefel uwch, mae perfformiad yr ysgol wedi tueddu i'w gosod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros yr un cyfnod.

Nid oes patrwm nodedig o wahaniaeth dros gyfnod rhwng cyflawniadau disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion ar y lefel ddisgwyliedig. Er hyn, nid ydynt yn cyflawni cystal â'u cyfoedion ar y lefelau uwch.

**Lles: Da**

Mae bron bob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd bwyta, yfed dŵr a chadw'n iach. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau ymarfer corff sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu ffitrwydd.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda iawn. Maent yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eu cyfoedion ac oedolion yn gyson. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith ac yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd, gan gadw ar dasgau am gyfnodau estynedig. Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth addas o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn grŵp brwdfrydig o ddisgyblion. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn weithgar yn yr ysgol ac mae gan lais y disgybl lle amlwg drwy fentrau amrywiol, er enghraifft wrth gynllunio gwelliannau i'r ardal allanol. Mae'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion eraill.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi gostwng dros gyfnod o dair blynedd o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% is o ysgolion tebyg yn 2015. Mae bron bob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion bron bob un disgybl yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i sicrhau bod y profiadau dysgu yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Mae'r ddarpariaeth allanol yn sicrhau cyfleoedd buddiol ymhob maes dysgu ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Mae ystod dda o weithgareddau allgyrsiol, sy'n cynnwys ymweliadau amrywiol yn yr ardal leol a thu hwnt ynghyd â chyfraniadau gan aelodau'r gymuned, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r athrawon yn cynllunio'n ofalus amrediad buddiol o weithgareddau sy'n datblygu medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn dda ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau'r athrawon bob amser yn cynnig digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o iaith a diwylliant Cymru yn gadarn iawn. Mae'r dimensiwn Cymreig i'w weld yn amlwg yng ngweithgareddau'r ysgol ac mae Cymreictod y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol. Gwneir defnydd da o ymwelwyr, yn cynnwys ymweliadau artist lleol, i hyrwyddo pwysigrwydd siarad Cymraeg.

Mae'r athrawon yn darparu profiadau buddiol sy'n hybu ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cynaliadwyedd. Mae cyfleoedd diddorol i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd eang sy'n magu dealltwriaeth disgyblion o anghenion pobl lai ffodus yn effeithiol iawn. Enghraifft dda yw gweithgareddau'r cyngor ysgol i helpu teuluoedd yn Affrica.

**Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio gwersi'n sy'n ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau addysgu cyfoethog i gefnogi'r dysgu. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafaredd. Mae perthynas waith effeithiol iawn rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus. Yn yr ychydig o enghreifftiau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid oes bob amser ddigon o her i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd llawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio deilliannau profion safonol ac ystod o dasgau asesu priodol eraill i asesu cynnydd y disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio gweithgareddau addas sy'n bodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau addas i ddangos i'r disgyblion yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r disgyblion hefyd yn derbyn adborth llafar adeiladol ar eu gwaith a'u hymdrechion. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd yn datblygu'n dda.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn gynhwysfawr ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plentyn, ynghyd â thargedau gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol ac agos sydd yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn dda. Mae'r staff yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn llwyddiannus a chynigir amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol i ategu hyn. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi presenoldeb sydd wedi arwain at welliant.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda asiantaethau amrywiol i sicrhau cefnogaeth fuddiol i ddisgyblion ar faterion addysgol, cymdeithasol a phersonol, gan gynnwys cyswllt agos â'r gwasanaeth seicolegol addysg sy'n sicrhau cefnogaeth dda i ddisgyblion penodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn fuan ac yn darparu cynhaliaeth bwrpasol ar eu cyfer. Mae'r athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn fedrus i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da. Mae targedau clir a chyraeddadwy yn cael eu nodi yn y cynlluniau addysg unigol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y broses o'u llunio a'u hadolygu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, glos lle mae perthynas iach o barch a gofal rhwng y staff a'r disgyblion. Mae iddi ethos cynhwysol amlwg lle caiff pob disgybl ei drin yn gyfartal gyda mynediad llawn i'r holl weithgareddau. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi pob disgybl a rhoddir llais amlwg iddynt. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngweithgareddau amrywiol y cyngor ysgol.

Mae safle'r ysgol yn darparu amgylchedd cadarn a diogel. Mae'r safle a'r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus, gan ddarparu amgylchedd ysgogol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau a thir yr ysgol yn dda i annog disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Gwneir defnydd pwrpasol o'r ardal allanol ar gyfer hyrwyddo egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a manteisir ar y cyfle i ddefnyddio offer y Cylch Meithrin sydd yn ehangu profiad dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd chwaethus o waith disgyblion ar waliau'r ystafelloedd yn rhoi bri ar waith disgyblion ac yn ychwanegu at ethos cartrefol a chroesawgar yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn a chyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae ganddo weledigaeth sydd â ffocws clir ar sicrhau safonau uchel drwy ddarparu profiadau dysgu cyfoethog er lles disgyblion. Llwydda i arddel disgwyliadau uchel ymhlith y staff a'r ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r holl randdeiliaid yn cydweithio'n gydwybodol i greu cymuned ysgol hapus.

Mae staff addysgu a staff cymorth yn frwdfrydig ac yn cydweithio'n agos iawn fel tîm. Mae eu rolau a'u cyfrifoldebau'n datblygu'n briodol a mae eu hymroddiad yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau disgyblion. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n dda ar ansawdd yr addysgu a deilliannau disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad effeithlon ar gyfer pob aelod o staff, sydd yn adnabod ac yn cefnogi agweddau perthnasol ar gyfer eu datblygiad proffesiynol yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn effeithiol, fel y Siarter Iaith, llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm ac adroddiadau hunanarfarnu a gwelliant. Mae'r ysgol yn ymateb yn fwriadus i Siarter Iaith Ynys Môn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd disgyblion o'r iaith Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac mae aelodau ymroddgar yn ymweld yn rheolaidd â dosbarthiadau a'r ysgol gyfan. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ac ymwybyddiaeth gadarn o bob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae rôl strategol y corff yn y broses hunanarfarnu a blaenoriaethu gwelliannau yn datblygu'n dda. O ganlyniad, mae'n dwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus am ei pherfformiad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a cheisio barn reolaidd disgyblion, rhieni a llywodraethwyr.

Mae bob aelod o staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses hunanarfarnu ac yn cynnig mewnbwn gwerthfawr i'r trafodaethau. Mae deilliannau'r prosesau hyn yn darparu asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r broses hunanarfarnu yn effeithiol i bennu blaenoriaethau allweddol a meysydd ffocws ar gyfer gwella'r ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol, ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd.

Mae trefniadau effeithiol y pennaeth a'r staff yn sicrhau eu bod yn monitro prif flaenoriaethau'r cynllun datblygu yn barhaus. Mae cynnydd yr ysgol yn erbyn argymhellion yr arolygiad blaenorol yn enghraifft da o hyn.

Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau gwaith disgyblion, er enghraifft mewn safonau darllen Cymraeg a rhesymu mathemateg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau buddiol yn bodoli gydag ystod dda o bartneriaid sydd yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus

Mae perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn ategu'r holl weithgareddau'n frwd. Mae ffocws y pennaeth ar hybu cydweithrediad yn llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gyson rhieni.

Mae partneriaeth gadarn â'r gymuned leol. Mae ymweliadau â'r gymuned a'r defnydd o unigolion lleol yn gwneud cyfraniad pwysig i brofiadau'r disgyblion. Mae hyn hefyd yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu hardal leol. Er enghraifft, mae aelodau o'r gymuned fel y ffermwr lleol yn ymweld â'r ysgol i gefnogi gwaith thema. Mae'r disgyblion hefyd yn ymuno mewn digwyddiadau yn y gymuned fel Sul y Cofio a chadw'r pentref yn daclus.

Mae cydweithio llwyddiannus gyda'r cylch meithrin sy'n cyfarfod ar dir yr ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin. Mae cysylltiadau cadarn a threfniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio llwyddiannus ar gyfer disgyblion.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gydag ysgol gyfagos i gynnig profiadau gwerthfawr i'r disgyblion, fel taith i Lundain. Mae athrawon yn cydweithio'n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion yn y pynciau craidd. Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Defnyddir cymorthyddion dosbarth yn effeithiol i roi cefnogaeth i unigolion a grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft trwy sicrhau bod disgyblion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau mathemategol ar lawr y dosbarth er mwyn codi safonau rhif.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn effeithiol. Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at gyfleoedd hyfforddi mewn meysydd priodol, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau gwella'r ysgol ynghyd â thargedau penodol y staff. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae athrawon y Cyfnod Sylfaen wedi gwella'r ddarpariaeth i sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau ymresymu rhif yn fwy effeithiol.

Mae amrediad eang o adnoddau dda yn yr ysgol ac mae staff yn eu rheoli'n bwrpasol i sicrhau mynediad llawn i bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y defnydd helaeth a chyson a wneir o'r ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gadarn. Mae nifer o rwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol yn bodoli gydag ysgolion eraill sy'n cynnig ystod eang o gyfleoedd i athrawon a chymorthyddion ddatblygu'n broffesiynol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio gydag ysgolion eraill yn y dalgylch i wella safonau darllen grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Gwnânt ddefnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i godi safonau llythrennedd a rhifedd ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau grwpiau arbennig o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer profiadau dysgu eang.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602142 - Ysgol Gymuned y Ffridd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 84 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 31.8 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 8 | 10 | 11 | 8 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 100.0 | 81.8 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 10 | 11 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 81.8 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 40.0 | 18.2 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 10 | 11 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 81.8 | 87.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 30.0 | 9.1 | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 3 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 10 | 11 | 8 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 90.9 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 62.5 | 40.0 | 54.5 | 62.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602142 - Ysgol Gymuned y Ffridd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 84 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 31.8 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 13 | 9 | 11 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.3 | 77.8 | 81.8 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 9 | 11 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 77.8 | 72.7 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 46.2 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 9 | 11 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 55.6 | 81.8 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.5 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 1 | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 9 | 11 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 77.8 | 81.8 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 69.2 | 55.6 | * | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 9 | 11 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 77.8 | 81.8 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 53.8 | * | 45.5 | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | * | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 41 | 41 / 100% / 98% | 0 / 0% / 2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 41 | 41 / 100% / 92% | 0 / 0% / 8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 41 | 41 / 100% / 97% | 0 / 0% / 3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 41 | 41 / 100% / 97% | 0 / 0% / 3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 41 | 41 / 100% / 96% | 0 / 0% / 4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 41 | 41 / 100% / 96% | 0 / 0% / 4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 41 | 41 / 100% / 99% | 0 / 0% / 1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 41 | 41 / 100% / 98% | 0 / 0% / 2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 41 | 41 / 100% / 91% | 0 / 0% / 9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 41 | 41 / 100% / 95% | 0 / 0% / 5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 41 | 41 / 100% / 77% | 0 / 0% / 23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 41 | 41 / 100% / 84% | 0 / 0% / 16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 32 | 27<br>84% | 5<br>16% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 32 | 31<br>97% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 31 | 27<br>87% | 4<br>13% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 32 | 26<br>81% | 5<br>16% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 31 | 23<br>74% | 8<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 30 | 25<br>83% | 5<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 32 | 29<br>91% | 3<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 32 | 21<br>66% | 10<br>31% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 31 | 26<br>84% | 5<br>16% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 31 | 26<br>84% | 5<br>16% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 32 | 30<br>94% | 2<br>6% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 31 | 23<br>74% | 7<br>23% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 32 | 22<br>69% | 9<br>28% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 32 | 24 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 32 | 24 | 7 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 75% | 22% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 31 | 25 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 31 | 24 | 6 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 77% | 19% | 3% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 32 | 28 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 32 | 29 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Brian Davies | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Henri Jones | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.